



## YSGOL I.D. HOOSON

08.03.21

### GWYBODAETH BWYSIG I RIENI/GOFALWYR

Annwyl Rieni/Ofalwyr,

Rydym yn edrych ymlaen i groesawu disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ôl i'r ysgol wythnos nesa. Bydd disgyblion blynyddoedd 3,4,5 a 6 yn dychwelyd i'r ysgol ar ddydd Llun Mawrth y 15fed. Er y bydd o bosib yn gyfnod ychydig yn bryderus a nerfus i rai disgyblion, rhieni a staff, byddwn yn parhau i weithredu trefniadau iechyd a diogelwch yr ysgol, a 'rwyf yn hyderus gyda chyd-weithrediad pawb sydd yn rhan o gymuned yr ysgol, y bydd y broses o dychwelyd yn un hwylus.

Un o'r prif newidiadau i'r trefniadau yw cyflwyniad pecynnau hunan brofi i holl staff. Bydd y staff yn gweinyddu'r profion ddwy waith yr wythnos. Os y bydd achos ble bydd aelod staff yn adrodd canlyniad positif, bydd yn debygol y bydd angen i'r dosbarth y bu'r athro/awes mewn cyswllt a nhw, i hunan ynysu am y cyfnod penodol yn dilyn cyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mewn achos fel hyn wrth gwrs, ni fydd posib i'r plentyn fynychu ysgol a bydd trefniadau dysgu ar-lein/dysgu cyfunol yn dod i rym i'r dosbarth penodol. Os y bydd sefyllfa fel hyn yn codi, byddwn yn hysbysu y rhieni perthnasol drwy gyfrwng Schoop a App yr ysgol. Mae'n bosib y cewch eich hysbysu yn ystod diwrnod ysgol/gyda'r hwyr, neu ar y penwythnos. Hoffwn felly eich annog i sicrhau fod gennych fynediad i'r cyfryngau cyfathrebu hyn.

**Darpariaeth ychwanegol i blant gweithwyr allweddol** – Bydd y ddarpariaeth sydd wedi bod ar gael i blant rhieni sydd yn weithwyr allweddol yn dod i ben ar ddydd Gwener Mawrth y 12fed. O ddydd Llun bydd amserlen cyrraedd a gadael yr ysgol i ddisgyblion **blynyddoedd 3,4,5 a 6** yn dychwelyd i'r amserlen fel ag yr oedd cyn y Nadolig. Mae'r amseroedd fel a ganlyn.

<b>Amser cychwyn i flynyddoedd 3/4/5 a 6</b> <b>Start time for years 3/4/5 &amp; 6</b>	<b>Amser gorffen i flynyddoedd 3/4/5 a 6</b> <b>Finish time for years 3/4/5 &amp;</b>
<b>8.55</b>	<b>3.00</b>

**Trefniadau gollwng plant yn yr ysgol / casglu plant** – Gofynnwn i bob rhiant / gofalwr i **beidio â chyrraedd campws yr ysgol dim mwy na 5 munud cyn yr amseroedd** cychwyn / gorffen a nodwyd. Bydd hyn yn hwyluso yn fawr iawn ar ein trefniadau iechyd a diogelwch, yn ogystal â lleihau traffig a hwyluso trefniadau parcio. Diolch.

**Clwb Brecwast / Clwb ar ôl ysgol** – Bydd darpariaeth clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol yn ail-gychwyn o ddydd Llun Mawrth y 15fed ymlaen. Oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch, dim ond niferoedd cyfyngedig fydd yn gallu mynychu. Bydd yn rhaid i chi sicrhau eich bod wedi gwneud cais am le yn y clwb brecwast ac wedi derbyn cadarnhad o hyn. Heb gofrestru i drefnu lle, ni fydd yn bosib i'ch plentyn gael mynediad i'r clwb brecwast. Gallwch gofrestru drwy e-bostio mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk gan nodi pa ddiwrnodiau yr ydych yn dymuno cael lle i'ch plentyn. Gan fod y niferoedd y gallwn dderbyn i'r clwb brecwast ar hyn o bryd wedi lleihau, bydd yn rhaid i chi hysbysu'r ysgol cyn 3 o'r gloch ar y diwrnod blaenorol os na fydd eich plentyn yn mynychu clwb brecwast fel y trefnwyd. Bydd hyn yn galluogi i le eich plentyn gael ei gynnig i blentyn arall a fydd o bosib ar y rhestr aros ar gyfer lle yn y clwb. Os na fyddwn yn derbyn cadarnhad nad ydych angen lle eich plentyn, yma bydd disgwyl i'r taliad arferol o £1 gael ei dalu.

Cofiwch fod cost o £1 ar gyfer y clwb brecwast, os yw'r plentyn yn cyrraedd rhwng 7.55 a 8.15. Bydd drysau'r clwb yn cau am 8.30.

Ar fynediad i'r clwb brecwast, bydd angen i'ch plentyn olchi ei dwylo ac ymuno a'r ardal benodol sydd wedi ei farcio ar gyfer grŵp oedran eich plentyn. Ni fydd mynediad i rieni/gofalwyr i neuadd yr ysgol. Os oes angen hysbysu'r athro/awes drosbarth o unrhyw wybodaeth bwysig yn ymwneud a'ch plentyn, dylech wneud hyn drwy e-bostio'r athro/awes.

O ran y Clwb ar ôl ysgol, fel y sefyllfa yn ymwneud a'r clwb brecwast, dim ond niferoedd cyfyngedig a all fynychu'r clwb, a bydd yn rhaid i chi fod wedi sicrhau eich bod wedi trefnu lle i'ch plentyn, gan hefyd sicrhau fod taliadau wedi ei derbyn gan yr ysgol, unwaith yr ydych wedi derbyn cadarnhad o le i'ch plentyn. Yn yr un modd a chlwb brecwast, os ydych wedi trefnu lle ar gyfer eich plentyn yn y clwb ar ôl ysgol ond yn penderfynu mwyach nad oes angen y lle bydd angen hysbysu'r ysgol cyn 9.30am ar yr un dydd. Os na fyddwn yn derbyn cadarnhad nad ydych angen lle eich plentyn, yma bydd disgwyl i'r tal arferol gael ei dalu. Cost y clwb ar ôl ysgol yw £3.50 hyd at 16.30, ac yna £3.50 ychwanegol hyd at 17:30. Dylech wneud cais am le drwy ddefnyddio e-bost [mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk](mailto:mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk)

Ymddiheurwn am yr anghyfleustra a all hyn achosi i rai teuluoedd, ond oherwydd y rhesymau iechyd a diogelwch, mae rhaid cyflwyno'r trefniadau hyn. Rydym yn mawr obeithio bydd y sefyllfa yn gallu newid wrth i ni weithio drwy weddill y flwyddyn ysgol hon.

**Cinio** - Mi fydd cinio ysgol ar gael i'r rhai fydd yn dymuno, o ddydd Llun Mawrth 15fed ymlaen (Bwydlen wythnos 1). Bydd y plant yn bwyta cinio ysgol yn y neuadd o fewn amseroedd penodol, gydag amser digonol yn cael ei roi i'r plant fwyta cinio a chael cyfnod awyr iach tu allan. Bydd plant a fydd yn dod a brechdanau eu hunain yn bwyta yn y dosbarth. Mae newidiadau wedi ei chyflwyno i'r fwydlen. Dylid gwneud taliadau cinio ar-lein drwy'r system newydd ParentPay. Cysylltwch gyda'r swyddfa os ydych angen y wybodaeth berthnasol i wneud hyn.

**Cyswllt athro/rhiant** – Ar hyn o bryd, ni fydd yr athrawon dosbarth yn gallu cyfarfod wyneb i wyneb gyda rhieni/gofalwyr. Os oes mater pwysig yr hoffech ei drafod ynglŷn ag addysg eich plentyn, yna bydd angen gwneud hyn drwy alwad ffôn neu e-bost i'r athro/awes ddosbarth.

**Canllawiau Llywodraeth Cymru** - A fydddech cystal â sicrhau eich bod yn parhau i ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru sydd yn parhau i fod yn weithredol ar hyn o bryd. Mae rhain yn cynnwys:

Aros gartref

Cyfarfod pobl yr ydych yn byw gyda nhw yn unig

Gweithio o gartref os gallwch

Gwisgo gorchudd wyneb

Golchi eich dwylo'n rheoliad

Aros 2 fetr oddi wrth unrhyw un nad ydych yn byw gyda nhw

Gall 4 person o 2 aelwyd wneud ymarfer corff gyda'i gilydd tu allan (nid mewn gardd breifat) - Nid yw plant o dan 11 oed yn y mwyafswm o 4

Dylech hunan ynysu os ydych chi neu unrhyw un yn eich cartref yn arddangos symptomau.

Os oes gennych symptomau, dylech gael prawf

**Trefniadau dysgu ar lein/dysgu cyfunol** – Bydd y sesiynau dysgu ar lein/dysgu cyfunol ar gyfer disgyblion blynyddoedd 3,4,5 a 6 yn dod i ben ar ddydd Mercher Mawrth y 10fed. Bydd gan y disgyblion weithgareddau i'w cwblhau hyd at ddiwedd yr wythnos. Gan y bydd y disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol yr wythnos nesaf, bydd trefniadau ar gyfer casglu pecynnau gwaith hefyd yn dod i ben yr wythnos hon.

Byddwn yn gwneud pob ymdrech i'ch hysbysu o unrhyw wybodaeth bwysig y byddwn yn ei dderbyn cyn gynted ag y bydd yn bosib.

Unwaith eto hoffwn eich atgoffa i gofio cysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder. Cysylltwch gyda'r athro/awes ddosbarth am unrhyw ymholiad ynglŷn â'r gwaith, neu gyda'r swyddfa [mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk](mailto:mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk) am unrhyw ymholiad cyffredinol.

Cofion gorau atoch a chadwch yn ddiogel gan gymryd gofal gyda'ch teuluoedd.

Yn ddiffuant,

Rhodri Jones  
Pennaeth